

Enw'r Plentyn.....
 Cyfeiriad.....

 Rhif ffôn.....
 Dyddiad Geni
 Oedran
 Cyfeiriad e-bost.....

Rwyf yn caniatáu i(enw'r plentyn) ymuno â'r
 grŵp Ceidwaid Iau. Nodwch unrhyw ddiwrnod neu noswaith NAD
 yw'n gyfleus i'ch plentyn fynychu'r grŵp

Nodwch os yw eich plentyn wedi derbyn brechiad tetanus yn y
 pum mlynedd ddiwethaf. **DO/NADDO**

A oes gan eich plentyn unrhyw alergeddau, cyflyrau meddygol neu
 a yw'n cymryd meddyginiaeth? Rhwngch fanylion.....

Ydych chi'n rhoi eich caniatâd i'ch plentyn ymweld â safleoedd
 gwledig eraill yn ardal Wrecsam fel rhan o weithgareddau'r
 Ceidwaid Iau? **YDW/NAC YDW**

Weithiau byddwn yn cymryd ffotograffau o weithgareddau'r
 Ceidwaid Iau i'w defnyddio fel cyhoeddusrwydd yn ein taflenni
 digwyddiadau, arddangosiadau neu erthyglau papur newydd.
 Ydych chi'n rhoi caniatâd i ffotograff o'ch plentyn gael ei
 ddefnyddio at y diben hwn? **YDW/NAC YDW**

Disgwylir i rieni helpu unwaith bob 4-6 wythnos

Mae Parc Gwledig Tŷ Mawr yn cefnogi 'Prifysgol Plant' Wrecsam,
 prosiect sy'n gwobrwyo plant am weithgareddau y maent yn eu gwneud y
 tu allan i'r oriau addysgu arferol. Er mwyn i'ch plentyn dderbyn credydau
 ar gyfer y gwobrau hyn, nodwch pa ysgol y mae eich plentyn yn ei mynychu:

Ysgol fy

Mhientyn.....

Cyfeiriad yr Ysgol

.....

Llofnod Rhiant/Gwarcheidwad.....

Mae Parc Gwledig Tŷ Mawr Eich Angen Chi!



Fel Ceidwad Iau

Pam Ymuno â'r Ceidwaid Iau...?

Os ydych yn mwynhau gweithio gydag anifeiliaid, bod allan yn yr awyr agored, rhoi cynnig ar gelf a chreffft amrywiol, mynd ar deithiau cerdded ac ymweld â pharciau gwledig eraill yn ardal Wrecsam, a llawer llawer mwy, bydd y grŵp Ceidwaid Iau yn gweddu i chi i'r dim. Ar ben hynny, am bob awr y byddwch yn ei threulio fel Ceidwad Iau, byddwch yn ennill credyd tuag at 'Brifysgol Plant' Wrecsam.

Sut mae ymuno â'r Ceidwaid Iau...?

...Wel, mae'n hawdd! Os ydych yn 8-14 oed, yr unig beth y mae'n rhaid i chi ei wneud yw gofyn i'ch rhiant neu warcheidwad i lenwi'r ffurflen gais ar y dudalen gefn. Mae sesiynau Ceidwaid Iau yn cael eu cynnal drwy'r flwyddyn felly bydd grŵp addas ar gael i chi:

<u>Sesiynau gaeaf/ haf</u>	<u>Sesiynau haf yn unig</u>
Bore Sadwrn – 9 – 11	Dyddiau'r wythnos 4 – 5 pm
Bore Sadwrn – 9 – 11	

Mae'r Ceidwaid Iau yn boblogaidd iawn ac mae rhestr aros am leoedd fel arfer, ond po gyflymaf y byddwch yn cyflwyno eich ffurflen, po gyflymaf y bydd eich enw yn cael ei roi ar y rhestr. Pan fydd lle ar gael i chi, byddwn yn rhoi gwybod i chi.

Annwyl Riant/Gwarcheidwad,
Mae eich mab/merch wedi mynegi diddordeb mewn ymuno â grŵp Ceidwaid Iau Tŷ Mawr. Mae'r daflen hon yn rhoi rhywfaint o wybodaeth i chi am y Ceidwaid Iau a'u gweithgareddau, ac mae ffurflen ganiatâd i chi eu llenwi hefyd ar y dudalen gefn.

Mae'r Ceidwaid Iau yn wyth oed a hŷn ac maent yn mynychu'r parc ar ddyddiau penodol i ddysgu am y parc, ei anifeiliaid, natur, cadwraeth, sut i weithio gyda phobl eraill a sut i feithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb am eu hamgylchedd eu hunain.

Ar ôl cael eu derbyn fel Ceidwad Iau, bydd eich plentyn yn gweithio at gyfres o 4 gwobr, gan ddechrau gyda 'Hazel' a gweithio at wobwr 'Sequoia'.

Yn ogystal, mae Parc Gwledig Tŷ Mawr yn cefnogi 'Prifysgol Plant' Wrecsam. Prosiect yw hwn sy'n cael ei gynnal ledled Wrecsam lle caiff plant gredydau am yr amser y maent yn ei dreulio ar weithgareddau y tu allan i oriau addysgu arferol. Gall y plant weithio at wobwr efydd, arian neu aur a derbyn tystysgrif y Brifysgol. Byddant hefyd yn cael gwahoddiad i seremoni wobrwyo er mwyn dathlu eu cyflawniadau.

Oherwydd natur y gwaith dan sylw, gofynnwn i chi sicrhau bod eich plentyn wedi derbyn brechiad tetanus cyfredol.

Gofynnwn i'r rhieni helpu i oruchwylio'r grŵp tua unwaith y mis.

Os hoffech i'ch plentyn ymuno â'r Ceidwaid Iau, llenwch y ffurflen drosodd a'i dychwelyd i:

Parc Gwledig Tŷ Mawr, Lôn Cae Gwilym, Cefn Mawr,
Wrecsam. (01978) 822780